Powys County Council
Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 12th May 2015. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

Councillor: Darren J. Mayor	**Tel:** 01691 648214
Ward: Llanwddyn	**Mobile:** 07891 592710
Shire: Montgomeryshire	**Email:** cllr.darren.mayor@powys.gov.uk
Group: The Independent Group	**Date:** September, 2015

Section 1: Role & Responsibilities

I served on these Powys County Council committees [actual attendance/number of meetings held] and working groups:
Powys County Council – 7/7
Cabinet – see Portfolio Holder report
Montgomeryshire – 9/9

I served on the following outside organisations:
Llanfyllin Sports Centre Management Committee
Llanfyllin High School - Governor
Ysgol Penybontfawr – Governor
Llanwddyn Hall Committee

Section 2: Constituency activity

As a member of the council it is vital that I represent the needs and aspirations of all those living in the ward.

I am here to serve and help everyone regardless of gender, age, sexuality or religious belief. Over the course of the last year there have been numerous occasions when my support by the community has been sought to assist them in many and various issues, ranging from support in planning applications, highways issues, housing and school problems to name a few.

What has been really beneficial in terms of helping the community has been my attendance of the community council meetings which meet monthly where real issues pertinent to each of the three areas in my ward have been discussed and I have been able to assist the community council to have these issues resolved.

It is always a pleasure to be involved in local life and although having 3 very distinct communities within my ward it is always a pleasure to attend and support local events which gives you further opportunity to listen to the community to discover further the issues that affect those most.

We are very fortunate in my ward to have access to very good schools which offer both Welsh medium and Bilingual education. As a governor in both Ysgol Pennant and Llanfyllin High School I am very conscious of the challenging times that our education system faces in such austere times and I am committed to supporting the boards and teaching staff in providing the best and most varied education possible.

Section 3: Learning & Development

Every month there are member development days helping elected members the opportunity to learn more about many different subjects which are pertinent to the role of county councillor. Some of these training days are specific to council activity but some have a more national implication

Future services delivery management Seminar 2; Treasury Management; Code of Conduct; Adult Social Care – changing practice and good practice; Webcasting; ACRF Extreme Challenge Event; Powys Youth Forum; Education through Regional Working [ERW]; Show Racism the Red Card.

I have also recently completed and graduated from the Welsh Local Government Association [WLGA] Leadership Training Programme which will assist me in the role I fulfil not only as an elected member but also as a portfolio holder on the cabinet.

Section 4: Outside organisations and other activities

Penybontfawr Community Council
Llangynog Community Council
Llanwddyn Community Council

Cyngor Sir Powys
Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 12 Mai, 2015. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cynghorydd: Darren J. Mayor	**Ffôn:** 01691 648214
Ward: Llanwddyn	**Ffôn symudol:** 07891 592710
Ardal: Sir Drefaldwyn	**E-bost:** cllr.darren.mayor@powys.gov.uk
Grwp: Y Grŵp Annibynnol	**Dyddiad:** Medi, 2015

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

Gwasanaethais ar y pwyllgorau a'r gweithgorau hyn o Gyngor Sir Powys [presenoldeb gwirioneddol /nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd]:
Cyngor Sir Powys - 7/7
Cabinet - gweler adroddiad yr Aelod Portffolio
Pwyllgor Sir Drefaldwyn - 9/9

Gwasanaethais ar y cyrff allanol hyn:
Pwyllgor Rheoli Canolfan Chwaraeon Llanfyllin
Ysgol Uwchradd Llanfyllin - Llywodraethwr
Ysgol Penybontfawr – Llywodraethwr
Pwyllgor Neuadd Llanwddyn

Adran 2: Gweithgaredd yr etholaeth

Fel aelod o'r cyngor, mae'n hanfodol fy mod yn cynrychioli anghenion a dyheadau pawb sy'n byw yn y ward.

Rwyf yma i wasanaethu a helpu pawb, waeth beth fo'u rhyw, oed, rhywioldeb neu gred grefyddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gofynnodd y gymuned am fy nghefnogaeth ar nifer o achlysuron i'w cynorthwyo gyda nifer o broblemau, yn amrywio o gefnogaeth mewn ceisiadau cynllunio, materion priffyrdd, a phroblemau gyda thai ac ysgolion i enwi ond ychydig.

Yr hyn sydd wedi bod yn fuddiol iawn o ran helpu'r gymuned yw fy mhresenoldeb yng nghyfarfodydd y cyngor cymuned sy'n cyfarfod bob mis. Ynddynt trafodir materion go iawn sy'n berthnasol i bob un o'r tair ardal yn fy ward ac rwyf wedi gallu cynorthwyo'r cyngor cymuned i gael y materion hyn wedi'u datrys.

Mae bob amser yn bleser cymryd rhan mewn bywyd lleol ac er bod 3 cymuned wahanol iawn o fewn fy ward mae bob amser yn bleser mynychu a chefnogi digwyddiadau lleol sy'n rhoi cyfle pellach i wrando ar y gymuned i ganfod mwy am y materion sy'n effeithio

arni fwyaf.

Rydym yn ffodus iawn yn fy ward i o gael mynediad at ysgolion da iawn sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Ddwyieithog. Fel llywodraethwr yn Ysgol Pennant ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin rwy'n ymwybodol iawn o'r cyfnod heriol sy'n wynebu ein system addysg mewn cyfnod mor llwm, ac rwyf wedi ymrwymo i gefnogi'r byrddau a'r staff addysgu i ddarparu'r addysg orau a mwyaf amrywiol posibl.

Adran 3: Dysgu a Datblygu

Bob mis, cynhelir diwrnodau datblygu aelodau sy'n rhoi cyfle i aelodau etholedig ddysgu mwy am nifer o wahanol bynciau sy'n berthnasol i rôl cynghorydd sir. Mae rhai o'r dyddiau hyfforddi hyn yn benodol i weithgarwch y cyngor ond mae gan rai oblygiadau mwy cenedlaethol.

Seminar 2 Rheoli cyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol; Rheoli'r Trysorlys; Cod Ymddygiad; Gofal Cymdeithasol i Oedolion - arferion sy'n newid ac arferion da; Gwe-ddarlledu; Digwyddiad Her Eithafol ACRF; Fforwm Ieuenctid Powys; Addysg drwy Weithio Rhanbarthol [ERW]; Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth.

Yn ddiweddar rwyf hefyd wedi cwblhau a graddio o Raglen Hyfforddi Arweinyddiaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru [WLGA] a fydd yn fy nghynorthwyo yn y rôl rwyf yn ei chyflawni, nid yn unig fel aelod etholedig ond hefyd fel aelod portffolio ar y cabinet.

Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill

Cyngor Cymuned Penybontfawr
Cyngor Cymuned Llangynog
Cyngor Cymuned Llanwddyn